Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud

- Cynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy trwy'r rhaglen "Adeiladu a Phrynu" gan ddarparu dewis o ddaliadaethau a mathau o eiddo mewn lleoliadau sy'n bodloni'r galw.
- Gwerthuso'r stoc bresennol ar gyfer defnydd gorau, ailddatblygu, ailwampio neu ailddosbarthu i gynnal dewis a chyflenwad.
- Cynyddu a chryfhau gwaith presennol ar eiddo gwag, gan ddefnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael gan gynnwys trefniant "prynu nôl" a phrynu gorfodol.
- Ei wneud yn haws i bobl wneud cais am dai drwy weithio'n effeithiol gyda phartneriaid RSL i ddatblygu rhestrau aros ac enwebiadau cytbwys.
- Esblygu'r Asiantaeth Prydlesu Lleol i hyrwyddo arfer da, safonau uchel a darparu rhagor o ddewis o ddaliadaeth i fodloni anghenion.
- Ymgysylltu'n rhagweithiol gyda datblygwyr preifat i wneud y mwyaf o fantais tai'r farchnad agored a sicrhau defnydd effeithiol o'r broses cynllunio i ddarparu cyfraniadau tai fforddiadwy.
- Cynyddu'r strategaethau datblygu tai mewn partneriaeth.

Pam?

- Mae angen ymateb i dwf yn y boblogaeth a phoblogaeth sy'n heneiddio, i siapio a chydweddu anghenion cymorth cynyddol.
- Mae angen i'r cyflenwad tai danategu twf economaidd ac mae angen iddo ddatblygu ar gyfradd debyg, mai tai fforddiadwy deniadol sy'n ateb y gofyn yn brif alluogwr.
- Mae diwygio lles yn ennill momentwm ac er nad yw'r canlyniadau wedi'u meintoli'n llawn eto, mae angen i wasanaethau tai esblygu i fod yn y sefyllfa orau i ymateb.
- Mae'r Sector Rhentu Preifat sy'n ymestyn yn ddewis poblogaidd ac yn opsiwn dichonadwy i bobl sy'n wynebu colli eu llety eu hunain; bydd landlordiaid a thenantiaid yn elwa o waith cydlynol i wella hygyrchedd a safonau.
- Mae eiddo gwag yn gartrefi posibl; bydd ymagwedd bendant i'w hailddefnyddio eto yn creu mwy o gyflenwad, mwy o ddewis yn ogystal â chynyddu bywiogrwydd ac effaith weledol.

Sut i fesur llwyddiant

- Mwy o dai ar gael drwy ailddatblygu, gorfodi a modelau cymdeithasol a fforddiadwy wedi'u hadeiladu o'r newydd.
- Adeiladu tai cymdeithasol newydd, gan ymgorffori cynlluniau cyflogaeth a phrentisiaeth: 2017/18 – 45 uned dros 5 safle / 2018/19 – 165 uned dros 8 safle / 2019/20 – 1 uned
- Datblygiadau Adeiladu Newydd y Cyngor wedi'u rhagamcanu ar gyfer Nant Silyn, Plas Madoc, Croes Newydd
- 571 o unedau model fforddiadwy a ddylai fod ar gael drwy S106, cyfnod 2018-23
- Sicrhau bod yr Awdurdod yn cynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir tai danfonadwy
- Mynediad haws at dai trwy ddatblygu gweinyddiaeth Cofrestr Tai, yn arwain at restrau aros llai.
- PL 1- Cynnal: Nifer yr eiddo gwag sydd yn cael ei ddefnyddio eto drwy weithgarwch y Cyngor. Cyfrannu i fodloni targed o 33 bob blwyddyn.

Mae hyn oll yn cyfrannu at Flaenoriaeth PL1: **Hyrwyddo cartrefi o ansawdd da ac adfywio** cynllun y cyngor, yn benodol, cyfrannu at gynyddu nifer yr unedau newydd o dai fforddiadwy a ddatblygir a nifer yr eiddo gwag sy'n cael eu defnyddio eto drwy weithgaredd positif y Cyngor.



Cynllun y Cyngor 2017-22

Ffynant i bawb
Strategaeth Genedlaethol sydd canolpwyntio ar mae sefydlu nodau tymor hir

Symud Cymru Ymlaen
Cynllun ddarpariaeth ar gyfer Cymru 2016-21

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Ffyrdd i waith er mwyn ddarparu ffocws i gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud

- Datblygu ymagwedd rheoli tai ataliol sy'n nodi ac ymateb yn rhagweithiol i anghenion cymhleth a pheryglon ac yn hyrwyddo gwasanaethau sy'n gwneud yn fawr o gynaliadwyedd tenantiaethau ac yn atal digartrefedd.
- Cofleidio a chefnogi'r defnydd o dechnolegau newydd i ddarparu datrysiadau iechyd, tai a chymuned gan wneud cyrchu gwasanaethau'n haws ac yn fwy effeithlon.
- Galluogi pobl i ddarparu adborth amserol ar eu profiadau a'u dyheadau ar gyfer tai a gwasanaethau cysylltiedig â thai a dangos sut mae hyn yn siapio darpariaeth gwasanaethau'r dyfodol.
- Parhau i hyrwyddo gwaith partneriaeth leol a rhanbarthol effeithiol i gynhyrchu datrysiadau sy'n bodloni anghenion nodedig a gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.
- Adolygu tai a gwasanaethau tai i bobl hŷn, gan gynnwys cymorth, stoc a datblygiad datrysiadau tai y dyfodol.
- Cyflawni ar ymrwymiad i ddarparu lleoedd ychwanegol ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar ôl cwblhau asesiad o angen.

Pam?

- Mae atal digartrefedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth, mae angen i wasanaethau addasu i barhau i ffocysu a bod yn ddiwyd mewn amgylchedd newidiol.
- Wrth i ni fynd i mewn i hinsawdd newydd o ddiwygio lles, mae angen i wasanaethau gael eu symleiddio a ffocysu ar anghenion cwsmeriaid er mwyn cynyddu ffyniant. Mae eisiau helpu ar bobl yn eu cartrefi a gyda'u harian i wneud yn fawr o'r cyfle i gyflawni tenantiaethau cynaliadwy.
- Mae technolegau'n parhau i ddatblygu, sydd hefyd yn wir am faint y mae gwasanaethau'n dibynnu arnynt. Mae gwasanaethau rhwydd ac effeithlon yn darparu llawer o gyfleoedd i ailddiffinio sut rydym yn gweithio gyda, hwyluso, gofalu am ac ymgysylltu â chwsmeriaid, yn arbennig y rheiny sydd ag anghenion cymhleth.
- Mae ariannu gwasanaethau cymorth pobl hŷn yn debygol o leihau a fydd yn galw am ymatebion strategaeth a phartneriaeth ddigonol i wneud yn iawn am hyn.

Sut i fesur llwyddiant

- Darparu 5 safle i adeiladu tai newydd arnynt a fydd yn cynnwys unedau tai arbenigol ar gyfer anghenion cymhleth.
- Lleihau digartrefedd trwy ddatblygu gweinyddiaeth Cofrestr Tai a gwaith cydweithredol â ffocws gyda RP ac ymgysylltu.
- Cynyddu ymgysylltu ac ymgynghori â thenantiaid mewn nifer o gyd-destunau gan gynnwys cymorth tenantiaeth a datblygu gwasanaeth.
- Opsiynau cymorth person-ganolog i'r rheiny sy'n agored i niwed neu ag anghenion cymhleth, gan greu rhagor o denantiaethau cynaliadwy.
- PL 1- Cynnal: Nifer yr eiddo gwag sy'n cael ei ddefnyddio eto drwy weithgarwch y Cyngor. Cyfrannu i fodloni targed o 33 bob blwyddyn.
- E3 – Cyfran o blant mewn aelwydydd sydd â llai na 60% incwm canolrifol (mewn tlodi). Cyfrannu i greu gwell tuedd ar y ffigwr presennol sef 18.7% bob blwyddyn.

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud

- Ymrwymo i waith cynnal a chadw parhaus yr holl gartrefi Cyngor yn dilyn cyrhaeddiad safonau WHQS, i sicrhau bod cartrefi'n economaidd, deniadol ac yn bodloni anghenion a dyheadau cwsmeriaid.
- Defnydd positif o ddeddfwriaeth cynllunio, trwyddedu a gorfodi i leihau'r effeithiau a gyfyd o ganlyniad i eiddo gwag, a reolir neu a gynhelir yn wael yn arbennig mewn canol trefi, gan gyfrannu at well cyflyrau er mwyn lles a thwf economaidd.
- Parhau i adolygu ein hymagwedd rheoli tai at gymunedau aml-ddaliadaeth i ddarparu ymateb gwell ac effeithlon i faterion ansawdd bywyd.
- Bod yn arloesol o ran dylunio cartrefi newydd ac addasu'r stoc bresennol, i wneud y defnydd gorau o adnoddau a gwella cynaliadwyedd.
- Datblygu a hyrwyddo strategaethau a gwasanaethau effeithlonrwydd ynni ar gyfer y sector cyhoeddus a phreifat i leihau tlodi ynni ac amddiffyn yr amgylchedd.
- Parhau i ymroi i addasu cartrefi lle bo'n briodol, gan gefnogi'r syniad o gartrefi oes a byw'n annibynnol.

Pam?

- Mae angen gwella ymddangosiad ac atyniad canol tref Wrecsam a gall rheolaeth bositif ac adfywio tai gyfrannu'n sylweddol at hyn.
- Rhaid i dai newydd sy'n cael eu hadeiladu fodloni rheoliadau statudol, ac mae adeiladu tai sy'n rhagori ar y disgwyliadau'n uchelgais.
- Gwella fforddiadwyedd, bywiogrwydd a sicrhau canlyniadau cyson ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat.
- Mae tai o ansawdd da yn cefnogi datblygiad economaidd a bydd adfywio'n gwneud Wrecsam yn lle mwy ffyniannus i weithio a byw ynddo ac i ymweld ag ef.
- Hyrwyddo cymunedau a hinsoddau iachach a chyfeillgar i'r amgylchedd a gwneud yn fawr o incwm tenantiaid trwy leihau treuliau.

Sut i fesur llwyddiant

- E1 - Cyfanswm gwerth buddsoddi mewn adfywio corfforol. Cyfrannu at fodloni targed o £4.5miliwn bob blwyddyn.
- E2 - Swyddi gros a grëwyd lle'r oedd y Cyngor yn rhan uniongyrchol ohono. Cyfrannu at fodloni targed o 300 bob blwyddyn.
- E3 – Cyfran o blant mewn aelwydydd sydd â llai na 60% incwm canolrifol (mewn tlodi). Cyfrannu at greu gwell tuedd ar y ffigwr presennol sef 18.7% bob blwyddyn.
- E3 – Canran yr aelwydydd di-waith yn Wrecsam. Cyfrannu at greu gwell tuedd ar y ffigwr presennol sef 18.6% bob blwyddyn.
- Cwblhau 100% o WHQS i gartrefi'r Cyngor sydd wedi caniatáu mynediad erbyn 2020
- 100% o HMO a drwyddedir a chofrestrir gyda Rent Smart Wales
- Cynnydd yn nifer y preswylwyr sy'n teimlo'n ddiogel ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, gan gynnwys yng nghanol y dref ac ardaloedd lleol.
- Cefnogi cymunedau cymysg, cytbwys a chynaliadwy, gan weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod yr holl ddatblygiad preswyl yn cyfrannu at fodloni anghenion a nodwyd y gymuned gyfan.

Yn debyg, mae Blaenoriaeth PL1 cynllun y cyngor: **Hyrwyddo cartrefi o ansawdd da ac adfywio** yn cael ei gefnogi drwy'r gweithredoedd hyn.

Designed by Reprograhics Unit